

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Laser Clinics UK (Caerdydd),
Caerdydd

Dyddiad arolygu: 13 Awst 2024

Dyddiad cyhoeddi: 13 Tachwedd 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-905-3

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	16
4.	Y camau nesaf	18
	• Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	19
	• Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	20
	• Atodiad C - Cynllun gwella	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Laser Clinics UK (Caerdydd), Uned 26, Canolfan Siopa Dewi Sant Caerdydd, CF10 2EW ar 13 Awst 2024.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 20 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Laser Clinics UK (Caerdydd) yn ymrwymedig i gynnig profiad cadarnhaol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol â staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb. Roedd modd cael mynediad i'r clinig drwy Ganolfan Siopa Dewi Sant sydd â mynediad gwastad a lifftiau i gleifion ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom fod y clinig yn cael cydsyniad cyn pob triniaeth. Roedd staff y practis yn siarad nifer o ieithoedd gan gynnwys Cymraeg.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn ar holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Dylai holl driniaethau cleifion gael eu cofnodi'n llawn ac yn gywir gan gynnwys cyfrif dosau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.
- Cadw cofrestr yn cofnodi pob achlysur y darperir triniaethau laser, sy'n benodol i'r peiriant
- Gosod blwch awgrymiadau i alluogi cleifion i roi adborth dienw.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal ymgynghoriad llawn cyn cytuno i unrhyw driniaethau a oedd yn cynnwys trafodaeth am risgiau a manteision y driniaeth
- Roedd e-bost boddhad cwsmeriaid yn cael ei anfon at bob claf yn dilyn apwyntiad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod amgylchedd y clinig mewn cyflwr da iawn ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân iawn gyda thystiolaeth o archwiliadau Atal a Rheoli Heintiau rheolaidd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd amserlenni glanhau yn cael eu cadw.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser yn cael eu defnyddio mewn modd priodol, gyda chyfarpar addas i amddiffyn y llygaid ar gael ym mhob ystafell.

Ar y cyfan, gwelsom fod prosesau da ar waith i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed gan fod polisi cyfredol ar waith ac arweinydd wedi'i benodi. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu oedolion a phlant.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Dylai pob aelod o staff gwblhau hyfforddiant diogelu oedolion a phlant.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod nifer priodol o staff yn cael eu hyfforddi a'u penodi i gyflenwi cymorth cyntaf
- Cadw amserlenni glanhau fel tystiolaeth o gydymffurfiaeth barhaus â phrosesau rheoli heintiau
- Sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei archwilio'n ddyddiol a chofnodi hynny ar ôl cwblhau'r archwiliad
- Rhoi gweithdrefn ar waith i sicrhau proses werthuso a gwella parhaus

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â gofynion diogelwch tân
- Polisi cofnodion meddygol electronig cyfredol a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar reoli cofnodion
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae gan Laser Clinics UK (Caerdydd) dîm ymroddedig, gydag arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau, a oedd wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd gweithdrefn gwyno briodol ar waith gyda thystiolaeth o ymatebion wedi'u dogfennu'n dda wedi'u cwblhau yn unol â pholisi'r clinig.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Sicrhau bod gan bob aelod o staff a gyflogir yn y clinig dystysgrif cofnodion troseddol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amrywiaeth o bolisiau cynhwysfawr wedi'u hysgrifennu'n dda gyda hanes llawn o fersiynau
- Roedd cyfarfodydd un i un misol yn cael eu cynnal a'u dogfennu'n dda.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a'r sylwadau yn gadarnhaol.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf wedi bod yn ymweld â'r clinig ers 12 mis heb unrhyw broblemau hyd yma. Mae'r merched sy'n darparu'r gwasanaeth yn hyfryd ar y cyfan. Mae rhai yn fwy siaradus na'i gilydd. Mae rhai/rhan fwyaf ohonynt yn gofyn cwestiynau i sicrhau fy mod yn hapus. Roedd adegau pan roedd yn teimlo'n frysio, a rhannau o'r corff wedi'u methu ond mae hynny wedi gwella'n ddiweddar.”

“Brech boeth ar ôl triniaeth. Gwiriadau rheoliad ar e-bost, dros y ffôn ac yn y clinig. Rhoddwyd cynhyrchion i drin y frech.”

Urddas a pharch

Gwelsom fod gan Laser Clinics UK (Caerdydd) ddwy ystafell drin laser wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod heb unrhyw gyfyngiadau i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd modd cael mynediad i'r clinig drwy Ganolfan Siopa Dewi Sant sydd â mynediad gwastad a lifftiau i gleifion ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod yr holl ardaloedd i gleifion yn lân iawn ac yn daclus. Roedd ystafell ymgynghori ar wahân er sicrhau bod y drafodaeth yn gyfrinachol. Roedd gan yr ystafelloedd trin ddrysau y gellir eu cloi a oedd yn galluogi'r cleifion i newid mewn preifatrwydd. Roedd rhodyn o bapur ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio drwy gydol eu triniaethau er mwyn diogelu eu hurddas.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn dweud bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, ac roeddent yn teimlo bod y staff wedi gwrando ar eu cwestiynau ac wedi eu hateb.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom edrych ar y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd i ni gan y rheolwr cofrestredig. Er i ni weld bod y canllaw i gleifion yn cydymffurfio i raddau helaeth â'r rheoliadau, roedd diffyg crynodeb o adborth gan gleifion.

Roedd sawl darn o wybodaeth allweddol ar goll o'r Datganiad o Ddiben:

- manylion yn ymwneud â nifer y staff sy'n gweithio yn y clinig, eu cymwysterau perthnasol a'u profiad
- Strwythur sefydliadol y busnes
- Trefniadau ar gyfer parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Rydym yn argymhell bod y clinig yn adolygu'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn siarad Cymraeg a gallai gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg os oedd claf yn dymuno gwneud hynny. Dywedwyd wrthym fod sawl aelod o staff yn siarad mwy nag un iaith gan gynnwys Ffarsi, Wrddw, Dari a sawl tafodiaith Indiaidd. Dywedwyd wrthym y gellid trefnu fersiynau Cymraeg a fformatau eraill o ddogfennau, megis print bras a hawdd eu deall, pe bai angen.

Gwnaethom edrych ar wefan y clinig a gwelsom lawer iawn o gyngor, gwybodaeth a chanllawiau yn ymwneud â'r triniaethau a oedd yn cael eu darparu, telerau ac amodau a materion cysylltiedig eraill. Roedd rhestr brisiau lawn ar gael hefyd a oedd yn cynnwys cynigion arbennig.

Roedd modd trefnu apwyntiadau am ymgynghoriadau naill ai ar-lein drwy wefan y clinig, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwnaethom ofyn am gael gweld y gofrestr o driniaethau laser fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd cofrestr o'r fath ar waith am fod y wybodaeth yn cael ei chofnodi yng nghofnodion unigol cleifion.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr yn cofnodi pob achos o ddarparu triniaethau laser, sy'n benodol i'r peiriant, yn hytrach na bod hyn yn cael ei gofnodi ar wahân yn ffeiliau unigol cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf. Roedd nodiadau cleifion unigol ar gael a oedd yn cofnodi eu hanes meddygol, a byddai unrhyw newidiadau i hyn yn cael eu gwirio ym mhob triniaeth. Gwelsom fod y staff yn gofyn i bob claf ddarparu cydsyniad ar ffurf llofnod cyn dechrau pob sesiwn driniaeth. Fodd bynnag, ni chofnodwyd unrhyw gyfrif dosau ar gyfer unrhyw

driniaeth a ddarparwyd. Gwelsom hefyd fod un sesiwn o driniaeth lle'r oedd y nodiadau ar goll yn gyfan gwbl.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom fod cleifion yn cael ymgynghoriad llawn cyn cytuno i unrhyw driniaethau a oedd yn cynnwys trafodaeth am risgiau a manteision y driniaeth. Gwelsom gofnodion yn nodiadau pob claf bod canllawiau ôl-ofal yn cael eu darparu. Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd y cofnodion yn dangos bod pob claf yn cael prawf croen cyn dechrau cwrs o driniaeth er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd o unrhyw adweithiau niweidiol.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a manteision yr opsiynau hyn. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth hefyd a'u bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (18/20) eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn anghytuno'n gryf a ni atebodd y llall y cwestiwn.

Hefyd, dywedodd y rhan fwyaf (16/20) eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud pe bai ganddynt haint/argyfwng, a gyda phwy y dylent gysylltu. Fodd bynnag, roedd dau ymatebydd yn anghytuno a ni atebodd dau arall y cwestiwn.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod pob claf:

- Yn derbyn cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol
- Yn cael gwybod pa gamau i'w cymryd, a gyda phwy i gysylltu pe bai ganddynt argyfwng neu haint.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cawsom sicrwydd bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchoddedig ai peidio, ac roedd y staff a'r cleifion i gyd yn cael

eu trin yn deg. Roedd gan y clinig bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cynhwysfawr a pholisi bwlio ac aflonyddu yr oedd pob aelod o'r staff wedi'i ddarllen.

Gwelsom dystiolaeth o addasiadau rhesymol gan gynnwys bwrdd estynadwy ynghlwm wrth ddesg y dderbynfa ar uchder addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn gwblhau dogfennaeth.

Dywedwyd wrthym fod hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio yn ôl y gofyn.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Dywedwyd wrthym fod e-bost boddhad cwsmeriaid yn cael ei anfon at bob claf yn dilyn apwyntiad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y clinig yn monitro'r cyfryngau cymdeithasol ac adolygiadau ar Google. Fodd bynnag, nid oedd modd i gleifion heb fynediad digidol roi adborth dienw.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod blwch awgrymiadau er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth dienw.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei fonitro a'i asesu'n barhaus. Gwnaethom drafod arddangos hysbysiad 'dywedoch chi, gwnaethom ni' gan nad oedd system ar waith i hysbysu'r cleifion ynghylch unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod y clinig i'w weld yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol. Gan fod y clinig wedi'i leoli mewn uned yng Nghanolfan Siopa Dewi Sant, nid oeddem yn gallu archwilio'r strwythur allanol. Roedd derbynfa ac ystafell aros gyfunol a oedd yn eang, yn gyfforddus, yn olau ac wedi'i awyru'n dda. Roedd yr ystafelloedd trin yn fodern ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Roedd pob ystafell yn y clinig yn daclus ac yn drefnus.

Gwelsom fod asesiad risg cynhwysfawr wedi cael ei gynnal gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ym mis Gorffennaf 2024. Gwelsom fod profion offer cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar a bod arolygiad o system drydanol y safle, a gynhelir bob pum mlynedd, wedi cael ei gynnal yn 2022, gan roi sicrwydd ei bod yn ddiogel defnyddio dyfeisiau trydanol yn y clinig.

Gwnaethom arolygu'r trefniadau diogelwch tân a gwelsom fod popeth yn foddhaol. Gwelsom fod yr allanfeydd tân yn glir gydag arwyddion a goleuadau argyfwng drwy'r safle. Gwelsom fod gwiriadau o'r system larwm tân yn cael eu cofnodi'n wythnosol a bod cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedwyd wrthym fod tîm cyfleusterau'r ganolfan siopa yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar y pecyn cymorth cyntaf a gwelsom fod yr holl eitemau cymorth cyntaf ar gael ac yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu gwirio'n wythnosol. Dywedwyd wrthym fod ymateb cymorth cyntaf yn cael ei ddarparu gan staff y ganolfan siopa fel rhan o'r cytundeb rhentu uned ac felly nid oedd staff y clinig wedi'u hyfforddi na'u penodi'n ymatebwyr cymorth cyntaf. Fodd bynnag, wrth adolygu'r cytundeb, roedd yn nodi bod y clinig yn gyfrifol am benodi eu swyddogion cymorth cyntaf penodedig eu hunain.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod nifer priodol o staff yn cael eu hyfforddi a'u penodi i gyflenwi cymorth cyntaf a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus iawn yr olwg. Roedd yr arwynebau, y cyfarpar a'r ffitiadau wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau'n hawdd. Gwelsom drefniadau addas ar gyfer hylendid dwylo ym mhob ystafell drin.

Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau â'r rheolwr cofrestredig ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol i ddiogelu'r cleifion rhag achosion o groes-

heintio. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau a bod amserlenni glanhau yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, roedd yr amserlenni wedi'u nodi ar fyrddau sychadwy ac yn cael eu hailddefnyddio bob wythnos gan olygu nad oedd unrhyw gofnodion hanesyddol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw amserlenni glanhau fel tystiolaeth o gydymffurfiaeth parhaus â phrosesau rheoli heintiau.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr a chyfredol ar waith a gwelsom fod contract addas ar waith i gasglu a chael gwared ar wastraff clinigol. Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel yn y safle cyn iddo gael ei gasglu.

Roedd y mwyafrif (18/20) o'r ymatebwyr i holiadur AGIC yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, a nododd dau ymatebydd nad oeddent yn gwybod. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y lleoliad yn lân iawn.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn. Esboniodd y rheolwr cofrestredig er bod plant yn cael eu caniatáu ar y safle, nid oedd caniatâd iddynt fynd i mewn i'r ystafelloedd trin.

Roedd gan y clinig arweinydd diogelu a ddisgrifiodd sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu. Roedd polisi diogelu cyfredol ar waith gyda gweithdrefnau clir y dylai'r staff eu dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryder diogelu. Roedd hyn yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y timau diogelu lleol. Cafodd ap Diogelu Cymru Gyfan ei lawrlwytho ar ffôn yr arweinydd diogelu i sicrhau bod y clinig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau ar y pwnc.

Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddi a gwelsom er bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion, nad oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant nac oedolion.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriannau laser yr un fath â'r rhai a oedd wedi'u cofrestru ag AGIC. Darparwyd tystiolaeth o'r gwiriadau gwasanaeth a chalibradu blynyddol. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod gwiriadau dyddiol yn cael cynnal ond nad oeddent

wedi'u cofnodi. Gwnaethom drafod y dylid cofnodi pob gwiriad cyfarpar dyddiol a'u cadw fel tystiolaeth, cyn dechrau unrhyw driniaethau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser eu cynnal a'u cofnodi ar ôl eu cwblhau.

Roedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ac roedd rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriannau laser yn ddiogel wedi cael eu hadolygu ym mis Ionawr 2024. Gwelsom fod pob set o reolau lleol wedi'i chydlofnodi gan y gweithredwyr perthnasol.

Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac roedd y rhain wedi'u hadolygu'n ddiweddar.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laser. Gwelsom fod y rhain yn lân, mewn cyflwr da ac yn gyson â'r rheolau lleol.

Roedd arwyddion y tu allan i bob ystafell drin i ddangos bod peiriannau [laser yn yr ystafell](#). Roedd allweddi i weithredu'r peiriannau yn cael eu cadw dan glo yn ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod cloeon ar ddrysau'r ystafelloedd trin ac roedd mynediad i'r ardaloedd trin yn cael ei reoli gan dîm y dderbynfa, gan atal mynediad heb awdurdod pan oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig sut mae'r clinig yn asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Dywedwyd wrthym nad oeddent yn cynnal unrhyw archwiliadau nac adolygiadau clinigol ar lefel leol ac nad oeddent yn ymwybodol a oedd hyn yn cael ei wneud yn ganolog gan brif swyddfa eu grŵp. Ymhellach, roedd adborth a chwynion yn cael eu dadansoddi fesul claf yn unig ac felly nid oedd unrhyw themâu cyffredin o dueddiadau wedi'u nodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith ar gyfer sicrhau prosesau gwerthuso a gwella parhaus lle bo angen fel y nodir yn rheoliad 19 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod polisiau diogelu data a thechnoleg gwybodaeth (TG) ar waith a oedd yn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y clinig. Roedd cofnodion digidol yn cael eu cadw ar system ddata'r clinig a oedd wedi'i diogelu â chyfrinair a'i hamgryptio er mwyn atal colli data. Gwelsom fod cyfnodau cadw a threfniadau gwaredu yn briodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Laser Clinics UK (Caerdydd) yn rhan o gwmni cenedlaethol sydd â nifer o glinigau ledled y DU. Caiff y clinig ei redeg gan y rheolwr cofrestredig gyda chymorth tîm ymroddedig o staff. Mae tîm cenedlaethol o nyrsys a meddygon ar gael i'r clinig fel rhan o'r grŵp ehangach.

Gwelsom amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol, wedi'u hysgrifennu'n dda a oedd yn cynnwys hanes fersiynau, dyddiadau adolygu ac enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am y polisi. Roedd system TG y clinig wedi cofnodi pan oedd staff wedi darllen yr holl adolygiadau a diweddariadau i bolisiau.

Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd staff a rheoli rheolaidd. Gwelsom fod cofnodion o'r cyfarfodydd yn cael eu cymryd a'u dosbarthu i'r staff.

Gwelsom fod tystysgrif gyfredol o Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr yn cael ei harddangos.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn cwynion briodol ar waith a oedd yn cynnwys amserlenni ar gyfer ymateb. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno hefyd wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

Gwelsom y ffeiliau cofnodion cwynion a'u bod wedi'u dogfennu'n dda ac roedd yr ymatebion, ar y cyfan, yn unol â'r polisi. Nodwyd gennym fod rhai dyddiadau heb eu nodi yn y cofnodion hyn, a thrafodwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom fod digon o staff wedi cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y clinig ac i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth gyfredol ynghyd â hyfforddiant ar beiriannau penodol.

Er mwyn datblygu a chynnal sgiliau a gwybodaeth y gweithlu, roedd y rheolwr cofrestredig yn monitro gofynion hyfforddiant ac yn trafod ag aelodau'r staff yn ôl yr angen. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ychwanegol a oedd yn berthnasol i rolau staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod proses recriwtio gynhwysfawr wedi'i dogfennu ar waith yn y clinig. Roedd hon yn cwmpasu pob cam o'r broses recriwtio a dethol a oedd yn cynnwys ffurflen gais a chyfweliadau. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd tystysgrif cofnod troseddol manwl ar gael ar gyfer pob aelod o staff a gyflogir yn y clinig. Dywedwyd wrthym nad oedd gwiriadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cynnal cyn cyflogi pob aelod o staff.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Dywedwyd wrthym fod staff newydd yn ymgymryd â phroses sefydlu fanwl gyda chyfnod prawf i ddilyn gyda goruchwyliaeth briodol. Rhoddwyd disgrifiadau swydd manwl i'r staff yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd un i un misol manwl yn cael eu cynnal a'u dogfennu'n dda

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon diogelwch uniongyrchol eu datrys ar ddiwrnod yr arolygiad.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Laser Clinics UK (Caerdydd)

Dyddiad yr arolygiad: 13 Awst 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith fod pob aelod o staff a gyflogir yn y clinig yn cael tystysgrif cofnodion troseddol.	Rheoliad 21 (2) ac Atodlen 2, Paragraff 3, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r therapyddion bellach wedi cyflwyno cais am gliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Darperir copiâu i AGIC ar ôl eu derbyn.	Hannah Parry-Evans	Ar unwaith
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu ar unwaith bod pob aelod o staff a gyflogir yn y clinig yn cwblhau'r hyfforddiant priodol ar ddiogelu oedolion a phlant. Yn y cyfamser, mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i	Rheoliadau 16(1) a 20(2)(a)	Rwyf i, y Rheolwr Cofrestredig, wedi trefnu bod pob aelod o staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant diogelu cynhwysfawr ddydd Mercher 21 Awst, rhwng 1:30pm a 4:00pm. Bydd yr hyfforddiant, "Safeguarding for Children and Adults Awareness Level 2," yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn y clinig gan	Hannah Parry-Evans	Ar unwaith ac yn barhaus

AGIC yn egluro pa fesurau goruchwyllo sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed sy'n ymweld â'r clinig.

Caring for Care, sy'n ddarparwr adnabyddus yn y maes.

Yn y cyfamser, rwyf wedi cymryd camau pendant i sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth lwyr, gyda diogelwch a llesiant cleifion a staff yn flaenoriaeth:

Goruchwyliaeth Ychwanegol: Rwyf wedi cynyddu fy mhresenoldeb ar lawr y clinig yn sylweddol, gan neilltuo oriau ychwanegol i fonitro'r rhyngweithio rhwng staff a chleifion yn agos. Mae'r dull ymarferol hwn yn sicrhau bod unrhyw faterion posibl yn cael eu nodi'n brydlon ac yr eir i'r afael â nhw.

Sesiynau Briffio Diogelwch Dyddiol: Rwyf wedi cychwyn sesiynau briffio diogelwch dyddiol gyda'r tîm i atgyfnerthu ein protocolau diogelu, adolygu unrhyw ddigwyddiadau diweddar, ac egluro rolau a chyfrifoldebau pob aelod o'r tîm. Bwriad y sesiynau briffio hyn yw sicrhau bod diogelu ar frig meddwl pawb, gan feithrin diwylliant o wylidwriaeth ac atebolrwydd.

Arweinydd Diogelu - Cwrs Gloywi: Ar 19 Awst 2024 cofrestrais ar gyfer cwrs dwys 7 awr o hyd - Arweinydd Diogelu. Mae'r cwrs gloywi hwn wedi bod yn hollbwysig i fireinio fy arbenigedd, gan sicrhau fy mod yn gwbl gymwys i arwain ein hymdrechion diogelu. Mae'r cwrs wedi fy nghymell i ganolbwyntio ar fy nghyfrifoldebau fel arweinydd diogelu, gan gynnwys cydnabod ac ymateb i risgiau posibl.

Gwiriadau Un i Un Rheolaidd: Rwyf wedi bod yn cynnal cyfarfodydd un i un rheolaidd gyda phob aelod o staff i'w cefnogi ymhellach. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfle i drafod arsylwadau, mynd i'r afael ag unrhyw bryderon, a sicrhau bod pob aelod o staff yn hyderus ac yn wylidwrus yn ei rôl.

Mae'r mesurau rhagweithiol hyn yn tanlinellu ein hymrwymiad cadarn i ddiogelu, gan sicrhau bod cleifion a staff yn parhau i gael eu hamddiffyn wrth i ni baratoi ar gyfer yr hyfforddiant ffurfiol sydd i ddod.

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd ysgrifenedig i AGIC y bydd yr holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion y cleifion yn cael ei chwblhau'n llawn ac yn gywir.</p>	<p>Rheoliad 23(1)(a)</p>	<p>Fel Rheolwr Cofrestredig, er mwyn sicrhau bod holl gofnodion cleifion yn cael eu chwblhau'n llawn ac yn gywir, byddaf yn rhoi'r mesurau canlynol ar waith:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu Canllawiau Clir Creu a Chyfathrebu Polisiâu: Datblygu templedi syml a chlr i gadw cofnodion a sicrhau bod yr holl staff yn cael digon o wybodaeth. 2. Darparu Hyfforddiant Cynnal Hyfforddiant Rheolaidd: Cynnig hyfforddiant parhaus ar gwblhau dogfennaeth yn gywir a phwysigrwydd cofnodion cyflawn. 3. Monitro ac Adolygu Cynnal Archwiliadau Rheolaidd: Archwilio cofnodion cleifion yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyflawn, a darparu adborth yn seiliedig ar yr archwiliadau hyn. 4. Hybu Atebolrwydd Gosod Disgwyliadau: Cyfathrebu pwysigrwydd cadw cofnodion cywir yn glir a dal staff i gyfrif am eu dogfennaeth. 	<p>Hannah Parry-Evans</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>
---	--------------------------	--	---------------------------	---------------------------------

5. Cymorth a Helpu

Darparu Adnoddau: Sicrhau bod gan staff fynediad at arweiniad a chymorth ar gyfer unrhyw gwestiynau am ddogfennaeth.

Bydd y mesurau hyn yn helpu i sicrhau safonau uchel o ran cadw cofnodion cleifion a chydymffurfio â rheoliadau

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Laser Clinics UK (Caerdydd)

Dyddiad yr arolygiad: 13 Awst 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rydym yn argymhell bod y clinig yn adolygu'r datganiad o ddiben i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Manylion yn ymwneud â nifer y staff sy'n gweithio yn y clinig, eu cymwysterau perthnasol a'u profiad• Strwythur sefydliadol y busnes• Trefniadau ar gyfer parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion.	<p>Rheoliad 6 ac Atodlen 1 - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p>	<p>Byddwn yn diweddarau'r datganiad o ddiben i gynnwys y wybodaeth am gymwysterau a phrofiad staff, strwythur y clinig, a'r mesurau sydd ar waith i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.</p>	<p>Hannah Parry-Evans</p>	<p>2 wythnos - 29/10/2024</p>
<p>Rydym yn argymhell bod y clinig yn adolygu'r canllaw i gleifion i</p>	<p>Rheoliad 7</p>	<p>Byddwn yn diweddarau'r canllaw i gleifion i gynnwys crynodeb o adborth cleifion, naill ai trwy gasglu tystlythyrau neu trwy ymgorffori</p>	<p>Hannah Parry-Evans</p>	<p>2 wythnos - 29/10/2024</p>

gynnwys crynodeb o adborth cleifion.		adolygiadau Google cadarnhaol, ar yr amod ein bod yn cael caniatâd gan y cleifion a gyflwynodd yr adolygiadau.		
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr yn cofnodi pob achos o ddarparu triniaethau laser, sy'n benodol i'r peiriant, yn hytrach na bod hyn yn cael ei gofnodi ar wahân yn ffeiliau unigol cleifion.	Rheoliad 45(2)	Byddwn yn cyflwyno system lle bydd cofnodlyfr wrth ymyl pob peiriant laser, gan sicrhau y cofnodir pob sesiwn cleient. Bydd y cofnodlyfr yn cynnwys manylion hanfodol ar gyfer pob triniaeth, gan gynnwys y dyddiad, y math o driniaeth, y therapydd sy'n cynnal y driniaeth, hyd, ac unrhyw arsylwadau a wnaed yn ystod y sesiwn. Trwy gynnal cofnodion cynhwysfawr ar gyfer pob peiriant, byddwn yn gwella ein prosesau olrhain a'n hatebolrwydd ar gyfer y triniaethau laser a ddarperir.	Hannah Parry-Evans	Yn weithredol ar unwaith - byddwn yn cofnodi triniaethau ar daflenni cofrestr am y tro ac yn newid i ddefnyddio cofnodlyfr pan fyddwn yn eu derbyn.
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod pob claf: <ul style="list-style-type: none"> • Yn derbyn cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol • Yn cael gwybod pa gamau i'w cymryd, a gyda phwy i 	Rheoliad 15(1)(a) a (b)	Byddwn yn sicrhau bod cleifion yn cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir a gwybodaeth lawn am y camau priodol i'w cymryd. Rydym eisioes wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn trwy bwysleisio pwysigrwydd ôl-ofal. Mae hyn wedi'i gyfathrebu i bob aelod o staff yn ystod eu cyfarfodydd un i un rheolaidd a thrafodaethau tîm. At	Hannah Parry-Evans	Wedi'i roi ar waith

gysylltu pe bai ganddynt argyfwng neu haint.		hynny, rydym wedi archebu cyflenwad sylweddol o bamffledi ôl-ofal o'n porth marchnata ar-lein. Mae ein therapyddion wedi'u hyfforddi i fynd i'r afael ag ôl-ofal yn drylwyr yn ystod yr ymgynghoriad a'r ôl-drafodaeth yn dilyn triniaeth.		
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod blwch awgrymiadau er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth dienw.	Rheoliad 19(e)	Byddwn yn gosod blwch awgrymiadau i alluogi cleifion i roi adborth dienw. Bydd hyn yn cynnig ffordd bwysig i gleifion rannu eu meddyliau a'u profiadau, a bydd yn ein helpu i wella ein gwasanaethau yn seiliedig ar eu mewnbwn.	Hannah Parry-Evans	Mae blwch awgrymiadau eisoes wedi cael ei archebu, felly bydd yn weithredol yn y dyddiad nesaf - 21/10/24
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod nifer priodol o staff yn cael eu hyfforddi a'u penodi i gyflenwi cymorth cyntaf a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.	Rheoliad 20(2)(a)	Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod nifer priodol o staff wedi cael eu hyfforddi a'u penodi yn ymatebwyr cymorth cyntaf. Mae cwrs undydd wyneb yn wyneb wedi cael ei drefnu ar 18/11/2024. Byddwn yn darparu tystiolaeth o'r hyfforddiant i AGIC.	Hannah Parry-Evans	18/11/2024
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw amserlenni glanhau fel tystiolaeth	Rheoliad 15(8)(a)	Byddwn yn sicrhau bod amserlenni glanhau yn cael cadw fel tystiolaeth o'n	Hannah Parry-Evans	Yn weithredol ac yn barhaus

o gydymffurfiaeth barhaus â phrosesau rheoli heintiau.		cydymffurfiaeth barhaus â phrosesau rheoli heintiau. Bydd yr arfer hwn yn ein helpu i gynnal y safonau uchaf o lanweithdra a diogelwch yn ein clinig.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau proses werthuso a gwella parhaus pan fo angen.	Rheoliad 19	Byddwn yn parhau i werthuso ein prosesau a'n gweithdrefnau, gan ymdrechu i'w symleiddio lle bynnag y bo modd. Ein nod yw sicrhau profiad cwsmer rhagorol yn gyson bob tro.	Hannah Parry-Evans	Yn weithredol ac yn barhaus
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser eu cynnal a'u cofnodi ar ôl eu cwblhau.	Rheoliad 15(2)	Ar hyn o bryd rydym yn cynnal gwiriadau laser bob bore, ond byddwn yn defnyddio cofnodlyfr i gofnodi'r gwiriadau hyn wrth symud ymlaen. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dogfennaeth gywir ac atebolrwydd.	Hannah Parry-Evans	Yn weithredol ac yn barhaus

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Hannah Parry-Evans

Teitl swydd: Rheolwr y Clinig

Dyddiad: 15/10/2024